Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynullid Cenedlaethol Cymru

## Pecyn Cyngor Ysgol


1. Ein Cyngor Ysgol mewn Cyd-Destun — Page 2

2. Materion sy'n peri pryder — Page 4

3. Astudiaethau Achos Cynghorau Ysgol — Page 6

4. Deddfu — Page 13

5. Gwaith y Pwyllgorau — Page 16

6. Beth sy'n Gwneud Cynrychiolydd Dda — Page 19

7. Bod yn Agored ac yn Dryloyw — Page 23

8. Gwaith Craffu — Page 25

9. Cwestiynau ar gyfer y Cyngor Ysgol — Page 28

# 1. Ein Cyngor Ysgol mewn Cyd-destun

**Diben:** Amlygu'r elfennau tebyg a gwahanol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chynghorau ysgol.

**Cysylltiadau ABCh:**

**Adnoddau:** Copïau o'r *Daflen Cymharu Cynulliad Cenedlaethol Cymru / Cyngor Ysgol*

## Amlinelliad o'r gweithgaredd

Dylai Cynghorwyr Ysgol lenwi'r Daflen Cymharu Cynulliad Cenedlaethol Cymru / Cynghorau Ysgol. Os nad oes gan y Cyngor Ysgol logo neu gyfrifoldebau diffiniedig, gellid penderfynu beth yw'r rhain wrth lenwi'r ffurflen.

## Pynciau trafod

- Pa mor aml y dylid cynnal etholiadau i ddewis cynrychiolwyr? Beth yw manteision ac anfanteision cael tymor hir neu fyr yn y swydd?
- Un o swyddogaethau'r Llywydd yw cadw trefn yn ystod y Cyfarfod Llawn. A oes gan eich Cyngor Ysgol chi god ymddygiad ar gyfer cyfarfodydd? Beth yw'r cosbau am dorri'r cod ymddygiad, a pwy sy'n gyfrifol am ei orfodi?

# Ein Cyngor Ysgol mewn Cyd-destun

| | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Ein Cyngor Ysgol |
|---|---|---|
| **Logo** | | |
| **Sefydlwyd** | Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 12 Mai 1999. | |
| **Nifer yr Aelodau** | 60 o Aelodau Cynulliad, sy'n cynrychioli 40 o etholaethau a phump rhanbarth. | |
| **Man Cyfarfod** |  Y Senedd, Bae Caerdydd | |
| **Cadeirydd** |  Y Llywydd<br>Y Fonesig Rosemary Butler AC | |
| **Sut y caiff Aelodau eu dewis** | Cynhelir etholiadau pob pedair blynedd. | |
| **Cyfrifoldebau** | Cynrychioli buddiannau pobl Cymru, deddfu i Gymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. | |
| **Sut i Gysylltu â'ch Cynrychiolydd** | Ewch i http://www.cynulliadcymru.org a theipiwch eich cod post i gael rhestr o'ch Aelodau Cynulliad a'u manylion cyswllt. | |

# 2. Materion sy'n peri pryder

**Diben:** Tynnu sylw at sut y gellir cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad, a sefydlu system effeithiol o gysylltu â Chynghorwyr Ysgol.

**Cysylltiadau ABCh**

**Adnoddau:** Bwrdd gwyn neu ddarn mawr o bapur ar gyfer nodi syniadau.

## Cefndir

Llywodraeth wleidyddol a weithredir yn uniongyrchol gan y bobl (Democratiaeth Uniongyrchol) neu gan gynrychiolwyr etholedig y bobl (Democratiaeth Gynrychioliadol) yw democratiaeth.

Fel Aelodau'r Cynulliad, mae Cynghorwyr Ysgol yn gynrychiolwyr etholedig. Gwaith y naill a'r llall yw gwrando ar syniadau, awgrymiadau a phryderon y bobl y maent yn eu cynrychioli.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy gynnal cymorthfeydd rheolaidd lle y gall y bobl y maent yn eu cynrychioli cwrdd â nhw. Mae hefyd yn bosibl cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad drwy'r post, e-bost neu dros y ffôn. Mae manylion cyswllt yr holl Aelodau Cynulliad ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru - www.cynulliadcymru.org

Yn ogystal, gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno deisebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am newidiadau penodol i'r ffordd y caiff Cymru ei rhedeg. Ceir enghreifftiau o ddeisebau a gyflwynwyd eisoes ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Pynciau i'w trafod

- Pam ei bod yn bwysig bod pobl yn cael dweud eu dweud?
- Beth yw'r ffyrdd gorau o gael disgyblion eraill i rannu eu syniadau neu'u pryderon â chi?
- A ddylid cael gweithdrefn sefydlog ar gyfer ymdrin â phryderon disgyblion eraill?

## Amlinelliad o'r gweithgaredd

Dylai aelodau'r Cyngor Ysgol ddyfeisio system sy'n caniatáu i ddisgyblion eraill gysylltu â nhw gyda'u syniadau, eu hawgrymiadau neu'u pryderon.

# 3. Astudiaethau Achos Cynghorau Ysgol

**Diben:** Dangos cysylltiadau pellach rhwng swyddogaeth Cynghorwyr Ysgol ac Aelodau'r Cynulliad, a rhoi cyfle i Gynghorwyr Ysgol ymarfer sut i ymateb i amrywiaeth o sefyllfaoedd.

**Cysylltiadau ABCh:** 

**Adnoddau:** Copïau o *Astudiaethau Achos Cyngor Ysgol* a *Thaflen Cynllunio Camau Gweithredu Cyngor Ysgol.*

## Cefndir

Fel Aelodau'r Cynulliad, rhan o swydd Cynghorydd Ysgol yw gwrando ar bryderon y bobl y maent yn eu cynrychioli a chanfod atebion y gellir eu gweithredu.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Dylai disgyblion drafod rhai o Astudiaethau Achos Cynghorau Ysgol, ac yna ddefnyddio'r templed a ddarperir i ddisgrifio'r cynllun gweithredu y byddent yn ei ddefnyddio i ymdrin â mater tebyg.

# Astudiaethau Achos Cyngor Ysgol

Mae disgybl wedi ysgrifennu llythyr i'r cyngor yn cwyno am ba mor beryglus yw'r ffordd y tu allan i'r ysgol. Mae rhieni yn parcio eu ceir ar y llinellau igam-ogam ac weithiau ar y palmentydd hefyd. Mae cyfyngiad cyflymder o 20mya, ond mae defnyddwyr y ffordd yn ei anwybyddu yn aml. Yn y gorffennol, roedd yna warden i helpu plant i groesi'r ffordd, ond ymddiswyddodd oherwydd bod gymaint o yrwyr yn ddigywilydd wrthi. Yn ôl un disgybl, bydd rhywun yn cael ei anafu neu'i ladd y tu allan i'r ysgol cyn hir.

Mae eich ysgol wedi penderfynu cymryd rhan yn Niwrnod yr Amgylchedd eleni. Mae'r papur newydd lleol eisoes wedi ffonio'r ysgol, ac mae'n gobeithio ysgrifennu erthygl arbennig ar yr hyn y mae eich ysgol yn ei wneud i ddynodi'r diwrnod.

Beth fyddwch chi'n ei wneud i hyrwyddo'r ysgol fel lle sy'n garedig i'r amgylchedd?

Bu problemau gyda rhai o'r bechgyn hŷn yn chwarae pêl-droed ym mhrif iard yr ysgol, sy'n llawn plant. Mae nifer fawr o ddisgyblion wedi cael anaf, a'r wythnos ddiwethaf, bu'n rhaid rhuthro dynes cinio i'r ysbyty ar ôl iddi gael ei tharo yn ei hwyneb gan bêl.
Nid oes unrhyw un am weld pêl-droed yn cael ei wahardd, ond mae'r sefyllfa bresennol wedi troi prif iard yr ysgol yn lle nad oes unrhyw un am fynd iddo, os nad ydyn nhw'n ddigon cyflym i osgoi peli lledr.

Yn ddiweddar, gwnaeth myfyriwr cyfnewid o Ffrainc hwyl am ben eich llyfrgell ysgol, gan ddweud ei fod yn edrych fel rhywbeth o lyfr hanes. Mae pobl eraill wedi cytuno â'r farn. Nododd nain un disgybl nad oedd wedi newid o gwbl ers ei hamser hi, ac mae arolygwyr ysgol wedi lladd arno drwy ddweud ei fod yn "amgylchedd diflas sy'n gwneud dim i annog pobl ifanc i ddarllen".

Bu cynnydd mewn seiberfwlio yn eich ysgol. Dangosodd arolwg gan y cyngor ysgol fod 64% o'r disgyblion wedi cael eu bwlio drwy destun neu e-bost dros y tair blynedd diwethaf. Beth y gellir ei wneud i osgoi'r cynnydd hwn?

Ni fu ffreutur yr ysgol erioed mor amhoblogaidd. Mae nifer gynyddol o ddisgyblion bellach naill ai'n dod â'u bwyd eu hunain, neu'n mynd i'r dref i brynu cinio. Canlyniad hyn fu cynnydd mewn ysbwriel ac yn y cwynion gan aelodau'r cyhoedd ynglŷn ag ymddygiad swnllyd disgyblion. Sut y gellir gwneud y ffreutur yn lle mwy atyniadol i ddisgyblion?

Bu achosion o fandaliaeth yn nhoiledau'r ysgol. Mae'r graffiti ar y waliau wedi cynyddu ddengwaith ac mae disgyblion bellach wedi dechrau taflu peli o bapur toiled gwlyb at y to a gorlenwi'r sinciau. Pa gamau y gellid eu cymryd i annog disgyblion i barchu toiledau'r ysgol ychydig yn fwy?

Mae'r cyngor lleol wedi gofyn i'ch ysgol lansio ymgyrch i atal rhieni rhag ysmygu ger giatiau'r ysgol. Mae'n broblem fawr ledled y wlad, ac mae pryderon ei fod yn annog pobl ifanc i arbrofi gyda sigaréts, yn ogystal â chreu mwy o ysbwriel. Os yw eich dull chi o fynd i'r afael â'r broblem yn llwyddiannus, caiff ei ddefnyddio mewn ysgolion eraill drwy'r ardal.


Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r berthynas rhwng disgyblion eich ysgol a disgyblion ysgol arall i lawr y ffordd wedi dirywio. Clywyd sôn am ymladd yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol, ac mae nifer o ddisgyblion bellach yn newid o'u gwisgoedd ysgol cyn gadael yr ysgol i osgoi cael eu targedu. Beth y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa hon?


# Taflen Cynllunio Camau Gweithredu Cyngor Ysgol

**Y Broblem**

## Atebion Posibl













| Y Penderfyniad Terfynol |
| --- |
| |

| Yr Adnoddau / Arian sydd eu hangen |
| --- |
| |

**Pwy ddylai gymryd rhan ac â phwy y dylid ymgynghori?**

| Enw | Rheswm |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |

## Cynllun Gweithredu

| Blaenoriaeth | Beth sydd angen ei wneud? | Pryd? | Gan bwy? |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |
| 5 | | | |
| 6 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7** | | | |
| **8** | | | |

# 4. Deddfu

**Diben:** Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwerau deddfu'r Cynulliad, a rhoi cyfle i Gynghorwyr Ysgol wneud deddfwriaeth eu hunain.

**Cysylltiadau ABCh:**



**Adnoddau:** Copïau o'r *Papur Balot*

## Cefndir

Ar 03 Mawrth 2011 pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi pwerau deddfu llawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn golygu bod y Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar yr holl bynciau a ganlyn, a hynny heb orfod gofyn am gytundeb Senedd y DU yn gyntaf.

**Maes 1:** Amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a datblygu gwledig
**Maes 2:** Henebion ac adeiladau hanesyddol
**Maes 3:** Diwylliant
**Maes 4:** Datblygu economaidd
**Maes 5:** Addysg a hyfforddiant
**Maes 6:** Yr amgylchedd
**Maes 7:** Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân.
**Maes 8:** Bwyd
**Maes 9:** Iechyd a gwasanaethau iechyd
**Maes 10:** Priffyrdd a thrafnidiaeth
**Maes 11:** Tai
**Maes 12:** Llywodraeth leol
**Maes 13:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Maes 14:** Gwasanaethau cyhoeddus
**Maes 15:** Lles cymdeithasol
**Maes 16:** Chwaraeon a hamdden
**Maes 17:** Twristiaeth
**Maes 18:** Cynllunio gwlad a thref
**Maes 19:** Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
**Maes 20:** Y Gymraeg

## Pynciau i'w trafod

- Pe gallech greu cyfraith newydd ar gyfer Cymru, beth fyddai?
- A ddylai holl wledydd y DU ddilyn yr un cyfreithiau, neu a yw'n bwysig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn gallu gwneud eu cyfreithiau eu hunain i adlewyrchu gwahaniaethau rhanbarthol?

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Dylai'r disgyblion weithio mewn grwpiau bach i greu rheol newydd ar gyfer yr ysgol. Dylid trafod y cynigion yn gyntaf, a chael gwared ar unrhyw rai anaddas neu anymarferol.

Yna, gall disgyblion greu cyflwyniad byr, sy'n egluro pam y byddai eu rheol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd ysgol, ac yna'i gyflwyno i weddill yr ysgol.

Dylid cael sesiwn holi ac ateb ar ôl pob cyflwyniad, lle y gall disgyblion eraill ofyn am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r rheol arfaethedig a sut y byddai'n gweithio.

Ar ddiwedd pob sesiwn, rhaid i bawb bleidleisio dros y rheol y maent yn ei hoffi fwyaf, gan ddefnyddio'r templed balot a ddarperir (rhowch eich cynigion ar gyfer eich rheol chi yn y blychau cyn argraffu).

Bydd y cynnig sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau yn dod yn 'gyfraith' o fewn yr ysgol am ddiwrnod, wythnos, tymor, neu am ba bynnag hyd y mae'r pennaeth yn ei ganiatáu.

| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**<br>**Pleidlais Cyngor Ysgol**<br><br>Pleidleisiwch dros un o’r canlynol .<br>Marciwch **X** mewn un blwch. | **National Assembly for Wales**<br>**School Council Ballot**<br><br>Vote for one of the following.<br>Mark an **X** in one box. |
|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **(Nodwch y cynnig ar gyfer rheol newydd yma)** | |
| **2** | | |
| **3** | | |
| **4** | | |
| **5** | | |
| **6** | | |
| **7** | | |

# 5. Gwaith y Pwyllgorau

**Diben:** Amlygu gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad a phwysigrwydd casglu tystiolaeth cyn gwneud unrhyw newidiadau neu welliannau.

**Cysylltiadau ABCh:** 

**Adnoddau:** Copïau o'r ffurflen *Ymarfer Canfod Ffeithiau Cyngor Ysgol*
Blychau i gasglu'r ffurflenni wedi'u llenwi

## Cefndir

Grwpiau llai o Aelodau'r Cynulliad yw'r pwyllgorau sy'n gwneud gwaith ar ran y Cynulliad. Mae'r pwyllgorau yn cynnal ymchwiliadau, a allai fod yn fyr – un cyfarfod yn unig – neu y gellir eu cynnal dros rai misoedd. Mae'r pwyllgorau yn casglu ac yn craffu ar dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan amrywiaeth eang o bobl.

Mae'r dull hwn o weithio yn caniatáu i'r Aelodau ystyried materion mewn llawer mwy o fanylder.

## Pynciau i'w trafod

- Pam ei bod hi'n bwysig bod gwleidyddion yn gwahodd amrywiaeth eang o arbenigwyr i'w cyfarfodydd?
- Pe bai eich cyngor ysgol chi'n cael ei rannu i bwyllgorau, pa fath o bynciau y byddai'r pwyllgorau hyn yn eu hystyried?

## Amlinelliad o'r gweithgaredd

Dros gyfnod o wythnos, dylai aelodau'r cyngor ysgol wahodd disgyblion eraill i lenwi'r ffurflen *Ymarfer Canfod Ffeithiau Cyngor Ysgol.* Yng nghyfarfod nesaf y cyngor, dylid trefnu'r holl syniadau a'r pryderon mewn categorïau. Awgrymir rhai categorïau isod:

- Ffreutur yr ysgol
- Toiledau
- Ymddygiad disgyblion
- Gweithgareddau yn ystod amser cinio / ar ôl ysgol
- Amgylchedd yr ysgol

Dylid rhannu aelodau'r Cyngor Ysgol yn grwpiau pwyllgor bach i gynnal ymchwiliadau i rai o'r materion a godwyd yn yr ymarfer canfod ffeithiau. Dylid cyflwyno'r canfyddiadau hyn i weddill y cyngor ysgol (a'r pennaeth os yn bosibl), naill ai ar lafar neu mewn cyflwyniad PowerPoint.

## Awgrymiadau ar gyfer casglu tystiolaeth

- Cynnal cyfweliadau â disgyblion ac aelodau o staff sy'n barod i gael eu cyfweld.
- Canfod beth mae ysgolion eraill yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater, naill ai drwy'r rhyngrwyd neu drwy gysylltu â disgyblion neu aelodau o staff o'r ysgolion hynny.
- Creu arolygon a holiaduron manylach a dadansoddi'r canlyniadau.
- Gwahodd disgyblion eraill i drafodaeth / sesiwn rhannu syniadau, lle y gall pawb ddweud eu dweud.
- Casglu tystiolaeth – mewn rhai achosion, gallai fod yn ddefnyddiol cymryd lluniau neu wneud ffilmiau y gellir eu dangos i aelodau o staff a chynghorwyr ysgol eraill.
- Os byddwch chi neu rywun arall yn dod o hyd i syniad arbennig ar gyfer datrys problem, ystyriwch ef ymhellach. A yw'n fforddiadwy? Pa mor ymarferol ydyw? A oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig ag ef? A yw o fewn rheolau a rheoliadau'r ysgol?

## Ymarfer Canfod Ffeithiau Cyngor Ysgol

Fel cynghorwyr ysgol, ein gwaith ni yw gwrando ar unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â bywyd yn yr ysgol ac unrhyw syniadau sydd gennych o bosibl ynglŷn â sut i wella pethau. Helpwch ni drwy lenwi'r ffurflen hon a'i rhoi yn y blwch a ddarperir.

**Nid oes yn rhaid i chi roi eich enw ar y ffurflen**, ond os y byddech yn fodlon dod i gyfarfod y cyngor ysgol ac egluro eich syniad neu eich pryder yn fwy manwl, nodwch eich manylion cyswllt ar waelod y ffurflen hon.

### Fy syniad neu fy mhryder:

**Enw:** **Dosbarth:**

## Ymarfer Canfod Ffeithiau y Cyngor Ysgol

Fel cynghorwyr ysgol, ein gwaith ni yw gwrando ar unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â bywyd yn yr ysgol ac unrhyw syniadau sydd gennych o bosibl ynglŷn â sut i wella pethau. Helpwch ni drwy lenwi'r ffurflen hon a'i rhoi yn y blwch a ddarperir.


**Nid oes yn rhaid i chi roi eich enw ar y ffurflen**, ond os y byddech yn fodlon dod i gyfarfod y cyngor ysgol ac egluro eich syniad neu eich pryder yn fwy manwl, nodwch eich manylion cyswllt ar waelod y ffurflen hon.

### Fy syniad neu fy mhryder:

**Enw:** **Dosbarth:**

# 6. Beth sy'n gwneud cynrychiolydd da?

**Diben:** Annog disgyblion i ystyried y sgiliau sydd eu hangen i fod yn Gynghorydd Ysgol da.

**Cysylltiadau ABCh:** 

**Adnoddau:** Copïau o'r ffurflen *Disgrifiad Swydd Cynghorydd Ysgol*
Mynediad at y rhyngrwyd, neu gylchgronau, papurau newydd, sisyrnau, beiros ffelt lliwio a glud.

## Cefndir

Mae Aelodau'r Cynulliad yn dod o gefndiroedd amrywiol. Yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw'r sgil o gynrychioli pryderon eraill a'r cymhelliant i wneud Cymru yn lle gwell. Cynhelir etholiadau'r Cynulliad bob pedair blynedd, a'r cyhoedd sy'n penderfynu a yw eu Haelodau Cynulliad wedi eu cynrychioli yn ddigon da.

## Pynciau i'w trafod

- Pa sgiliau sydd eu hangen i fod yn Gynghorydd Ysgol da?
- A oes unrhyw bobl enwog nad ydynt yn wleidyddion a fuasai'n gwneud cynrychiolwyr arbennig? Pam?

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Dylai disgyblion ystyried dyletswyddau Cynghorwyr Ysgol a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud y swydd yn effeithiol. Yna, dylent lenwi'r ffurflen *Swydd Ddisgrifiad Cynghorydd Ysgol*, naill ai yn unigol neu mewn grwpiau bach.

## Swydd Ddisgrifiad Cynghorydd Ysgol


**Prif Gyfrifoldebau**


Dyma'r pethau pwysicaf y mae Cynghorydd Ysgol yn eu gwneud fel rhan o'r swydd:

| |
|---|
| 1. |
| 2. |
| 3. |
| 4. |
| 5. |

## Sgiliau Hanfodol

Defnyddiwch yr amlinelliad ar y dudalen nesaf i ddangos y math o sgiliau sy'n gwneud cynghorydd ysgol da. Gallwch ddefnyddio beiros ffelt lliwio, clipluniau, neu luniau wedi'u torri o bapurau newydd a chylchgronau. Ceir enghraifft isod:





# 7. Bod yn agored ac yn dryloyw


**Diben:** Tynnu sylw at y ffyrdd a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hysbysu pobl ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn ei gyfarfodydd, ac i annog Cynghorwyr Ysgol i ddyfeisio system eu hunain.

**Cysylltiadau ABCh:** 

**Adnoddau:** Yn dibynnu ar y fformat y mae'r Cynghorwyr Ysgol yn penderfynu ei ddefnyddio.

## Cefndir

Mae dyluniad y Senedd wedi'i seilio ar y cysyniad o fod yn agored ac yn dryloyw. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, mae trawsgrifiadau ar gael ar-lein o fewn 24 awr i ddiwedd pob cyfarfod.



## Pynciau i'w trafod

- Sut y mae eich cyngor ysgol yn gadael i bobl eraill wybod beth sy'n digwydd?
- Pwy sydd angen gwybod?
- Pam ei bod hi mor bwysig bod y rheini sy'n cael eu cynrychioli yn gwybod beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd eich cyngor ysgol?
- Beth yw'r ffordd orau o roi gwybod i bobl beth sy'n digwydd?

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Dylai Cynghorwyr Ysgol gytuno ar fformat ar gyfer cylchlythyr neu e-fwletin gan y cyngor ysgol, a'i ddosbarthu ymysg y disgyblion yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ysgol.

Fel arall, dylid creu podlediad ar gyfer gwefan yr ysgol, neu dylid dangos fideo yn ystod amser cofrestru neu yn y gwasanaeth.

# 8. Gwaith Craffu

**Diben:** Dangos manteision gwaith craffu ar lefel genedlaethol ac o fewn cynghorau ysgol, ac annog Cynghorwyr Ysgol i werthuso eu gwaith eu hunain fel cynrychiolwyr.

**Cysylltiadau ABCh:**

**Adnoddau:** Copïau o *Ffurflen Gwerthuso Cyngor Ysgol*
Cyflwyniad PowerPoint o'r *Cabinet Dwyieithog* (dewisol)

## Cefndir

Rôl arall Aelodau'r Cynulliad yw edrych yn fanwl ar waith Llywodraeth Cymru a'i ddwyn i gyfrif ynglŷn â'r penderfyniadau a wna.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys:
- Y Prif Weinidog
- Gweinidogion Cymru
- Y Cwnsler Cyffredinol;
- Y Dirprwy Weinidogion.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe'u cynorthwyir gan Weision Sifil sy'n gweithio ar draws y pynciau datganoledig, sy'n cynnwys pynciau allweddol bywyd cyhoeddus, fel Iechyd, Addysg a'r Amgylchedd.

## Pynciau i'w trafod

- Pam ei bod hi'n bwysig bod llywodraethau'n cael eu dwyn i gyfrif ynglŷn â'u penderfyniadau mewn democratiaeth?
- A oes proffesiynau neu sefydliadau eraill o bobl y mae'n rhaid craffu ar eu gwaith yn rheolaidd?
- Pwy yng nghymuned yr ysgol sydd yn y sefyllfa orau i ddwyn gwaith y cyngor ysgol i gyfrif?

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Dylai Cynghorwyr llenwi'r ffurflen werthuso fel cyngor ysgol, ac yna gofyn i'r bobl y maent yn eu cynrychioli lenwi'r un ffurflen. Gellir gwneud hyn drwy roi copi i bob disgybl, neu gellir casglu un ffurflen werthuso ar gyfer pob dosbarth. Dylid cymharu'r canlyniadau ac yna eu harddangos mewn siartiau, graffiau neu ryw ddull tebyg. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau'r Cyngor Ysgol ar gyfer y dyfodol.

# Ffurflen Gwerthuso Cyngor Ysgol

Helpwch ni i wella ein cyngor ysgol drwy roi cylch o gwmpas yr wyneb sy'n dangos orau sut rydych yn teimlo ynglŷn â phob datganiad.

1. Mae fy nghyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd, ar amser ac mewn modd trefnus.

   ☹ 😐 ☺ 😃

2. Mae fy nghyngor ysgol yn fy hysbysu ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd mewn cyfarfodydd ac unrhyw ddatblygiadau newydd.

   ☹ 😐 ☺ 😃

3. Mae'n hawdd siarad ag aelodau o fy nghyngor ysgol ac maent bob amser yn barod i wrando ar bryderon a syniadau.

   ☹ 😐 ☺ 😃

4. Mae fy nghyngor ysgol yn dda iawn am ymchwilio a chanfod sut i ddatrys problemau.

   ☹ 😐 ☺ 😃

5. Mae fy nghyngor ysgol yn effeithiol o ran gwneud yr ysgol yn lle gwell i fod ynddo.

   ☹ 😐 ☺ 😃

Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw syniadau sydd gennych o bosibl ynglŷn â sut i wella perfformiad eich cyngor ysgol.

***Diolch am gymryd amser i lenwi'r ffurflen hon.***

# 9. Cwestiynau ar gyfer y Cyngor Ysgol

**Diben:** Dangos sut mae aelodau Llywodraeth Cymru'n cael eu holi'n fanwl ynglŷn â'u gwaith yn rheolaidd. Rhoi'r cyfle i ddisgyblion wneud yr un peth i'w Cynghorwyr Ysgol.

**Cysylltiadau ABCh:** 

**Adnoddau:** Ystafell sy'n ddigon mawr.

## Cefndir

Bob wythnos, neilltuir 60 munud i Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau i Brif Weinidog Cymru am y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn gofyn cwestiynau i Weinidogion eraill Cymru, Aelodau o'r Comisiwn a'r Cwnsler Cyffredinol bob pedair wythnos.



**Carwyn Jones**
**Prif Weinidog Cymru**

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Dylai Aelodau'r Cyngor drefnu sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Cyngor Ysgol. Dylid hysbysebu'r digwyddiad hwn gan ddefnyddio posteri a dylid gwahodd disgyblion eraill i gyflwyno eu cwestiynau o flaen llaw. Dylid enwebu aelodau o'r Cyngor i ddelio â phynciau penodol, fel amgylchedd yr ysgol, gwisg ysgol a'r bwyd sydd ar gael ar y safle.